

CYNGOR CYMUNED EGLWYS BACH - COFNODION CYFARFOD 05/09/2016

PRESENNOL: Cynghorwyr: Austin Roberts, Katherine Himsworth, John Emlyn Jones, Ceri Leeder, Arthur Williams, Gwyn Williams, John Lloyd Williams, Gwilym Williams.

1. **CROESO:** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Austin Roberts, bawb i'r cyfarfod gan estyn croeso arbennig i Mr Tomos Hughes, Parafeddyg gyda'r Gwasanaeth Ambiwylans i drafod Defibrillator Cymunedol. Eglurodd Mr Hughes y pwysigrwydd o gael peiriant o'r fath mewn lle amlwg yn y gymuned a bod tua 60 ohonynt yn y Dyffryn hyd yma. Mae'n ofynnol i'r peiriant gael ei gofrestru gyda'r Gwasanaeth Ambiwylans a chyfrifoldeb y Cyngor Cymuned fyddai ei yswirio. Byddai'r Gwasanaeth Ambiwylans yn darparu hyfforddiant i drigolion y gymuned ynghyd a esbonio pwysigrwydd yr offer i blant yr ysgol.

Cyfanswm y gost fyddai tua £760 (Defibrillator = £335 + gwaith trydanol = £200 + arwyddion = £115 + yswiriant = £100 + siswrn/masg = £10).

Diolchwyd i Mr Hughes am fynychu'r cyfarfod.

Cytunwyd i'r Cyng. John Lloyd Williams ymgynghori a Phwyllgor y Neuadd a chael caniatad ysgrifenedig ganddynt i gael gosod yr offer ar wal allanol y neuadd.

2. **YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Dawn Williams, Gwyn M Jones.
3. **DATGAN DIDDORDEB:** Dim.
4. **COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF:** cafwyd cofnodion cyfarfod 04/07/16 yn gywir ac fe'u harwyddwyd.
5. **MATERION YN CODI O'R COFNODION:**

Llwybrau - cyfarfod gyda'r Sir i drafod y mater - ar y gweill.

Bocs band-eang y Graig - cafwyd cadarnhad ei fod ar gyfer cyflenwi'r gymuned ac nad oes modd ei symud.

Arwyddion o Graig i North Lodge - dim ymateb gan y Sir hyd yma.

Ffordd Gyffylog - y clawdd wedi cael ei dorri; angen atgyfnerthu ochr y ffordd a'i thrwsio.

Polyn Fflag - nid yw sythu'r polyn yn waith hawdd. Y Cyng. Austin Roberts i holi'r Sir a chael amcan-brisiau.

Y Swyddfa Bost - cafwyd gwasanaeth am ychydig o oriau yn gwerthu stampiau a manion eraill ond awgrymwyd nad oedd yr offer yn gweithio'n briodol. Cytunodd y Cyng. Ceri Leeder i gysylltu a'r Swyddfa Bost i gael gwybodaeth bellach am y sefyllfa

6. **CEISIADAU CYNLLUNIO:** Dim.

Penderfyniadau'r Sir ar Geisiadau Cynllunio:

Apêl gyda'r Arolygiaeth Gynllunio - Helmydd, Trofarth - gwrthodwyd.

7. **MATERION PENODOL I'W PENDERFYNU:**

Gwagio trelar y fynwent - wedi ei drefnu.

Noson Tân Gwyllt 2016 - y Clerc wedi ymgeisio am y grant, ond heb gael ymateb gan yr Heddlu eto.

Cytunodd y Cyng. Austin Roberts i gael gair gyda'r Cyng. Dawn Williams ynglyn a threfnu'r noson ac i holi Mr Cedric Salter ynglyn a chostau ac ati. Bydd cynnal y digwyddiad eleni yn amodol i'r uchod a chynigiwyd mai addas fyddai trafod i Gyfeillion yr Ysgol gymryd cyfrifoldeb am y digwyddiad flwyddyn nesaf.

Adroddiad ar ffens ochr arall i'r ysgol - eglurodd y Cyng. Austin Roberts ei fod wedi cael gwybodaeth gan y Sir eu bod angen gwneud archwiliad o'r afon cyn symud ymlaen gyda'r ffens gan fod gwely'r afon wedi erydu. Gobeithir y bydd mwy o wybodaeth ar gael erbyn y cyfarfod nesaf.

Clerc newydd - derbyniwyd ymddiswyddiad y Clerc a hynny'n weithredol o 30/09/16. Diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith di-flino yn ystod y 5 mlynedd diwethaf a chyflwynwyd rhoddion iddi.

Wedi hysbysebu'r swydd yn y Weekly News, ar y wefan, facebook ynghyd a holi unigolion - dim ceisiadau hyd yma. Y Cyng. Austin Roberts i gysylltu a'r Sir i weld beth yw'r cam nesaf ac i gynnal cyfarfod i drafod y mater ar nos Lun 12/09/16 am 7:00p.m. Cytunodd y Cyng. John Emlyn Jones i gymryd y cofnodion yn y tymor byr.

Taliadau - Ms Marion Pryor, Archwiliad Mewnol 2015/16 - £100.00
Mrs Sue Hayward, Glanhau Toiledau (2 fis) - £220.50
Mrs Einir Jones - cyflog a chostau'r Clerc ar gyfer misoedd Gorff & Awst - £324.99
Cyllid a Thollau ei Mawrhydi (Treth ar gyflog misoedd Gorff & Awst y Clerc) - £75.00
Mr Wil Williams, torri gwair (Mehefin, Gorff & Awst) - £1,110.00
Neuadd Aberconwy - £33.00

8. **GOHEBIAETH:**

- Taliad Precept 2016/17 = £2,175.00.

9. **UNRHYW FATER ARALL:**

Bwrdd Hysbysebion - Y Cyng. Ceri Leeder i ddiweddarau rhestr y Cynghorwyr.

Parcio ar y glaswellt wrth y polyn fflag - y Cyng. Austin Roberts i edrych i mewn i'r opsiynau o rwystro hyn.

Bin du ychwanegol i'r fynwent - y Cyng. Austin Roberts i gysylltu a'r Sir.

Llinellau melyn ger mynedfa Heol Martin - y Cyng. Austin Roberts i ddilyn y mater i fyny gyda'r Sir.

Clawdd Heol Martin a'r Fynwent - cafwyd cwynion fod darn o'r clawdd wedi cael ei dorri a'i fod wedi syrthio i'r fynwent ac ar ben rhai o'r cerrig beddi. Cytunodd y Cyng. Austin Roberts i gael gair gyda'r perchennog.

Blodau tu allan i giât yr Eglwys - cytunwyd i ysgrifennu gair o ddiolch at Mr Philip Roberts, Tegfan am ei waith di-flino o sicrhau arddangosfa wych o flodau yn y cafnau.

Arwydd 1-6 Y Berllan - y Clerc i ddilyn y mater i fyny gyda'r Sir.

Diwrnod Amgylcheddol - cafwyd diwrnod llwyddiannus a chytunwyd i ysgrifennu gair o ddiolch at y Sir.

10. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF:** nos Lun 03/10/2016 am 7:30 o'r gloch.